# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 17 Mai 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 139(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Cwnsler Cyffredinol ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Samuel Kurtz (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): Pa fesurau bioddiogelwch y mae'r Gweinidog yn ymgymryd â hwy i atal ymlediad H5N1 yng Nghymru yn sgil dau weithiwr dofednod yn Lloegr yn dal ffliw adar?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Diogelwch adeiladau uchel

(30 munud)

**NDM8230** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i sicrhau bod datblygwyr adeiladau uchel iawn yn gyfrifol am faterion diogelwch.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) creu dyletswydd ar ddatblygwyr i ad-dalu lesddeiliaid am gostau rhesymol a gronnwyd o ganlyniad i faterion diogelwch adeiladau; a

b) gwahardd unrhyw ddatblygwr sy’n gwrthod cyweirio’r diffygion diogelwch tân ar adeiladau a ddatblygwyd ganddynt rhag cael caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiadau newydd yng Nghymru.

**Cyd-gyflwynwyr**

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Rhys ab Owen (Canol De Cymru)

**Cefnogwyr**

Gareth Davies (Dyffryn Clwyd)

Joel James (Canol De Cymru)

Natasha Asghar (Dwyrain De Cymru)

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai - Digartrefedd

(60 munud)

**NDM8267** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod Senedd Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 'Digartrefedd', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2023.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2023.

## 8 Dadl Plaid Cymru – Clefydau anadlol

(60 munud)

**NDM8266** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) bod 1 ym mhob 5 o bobl yn byw gyda chyflwr ysgyfaint yng Nghymru;

b) bod gan Gymru'r lefel uchaf o farwolaethau anadlol yng ngorllewin Ewrop;

c) nad yw'r gwasanaethau anadlu wedi adfer yn dilyn y pandemig, gyda rhestrau aros ar gyfer adsefydlu ysgyfeiniol mor uchel â thair blynedd mewn rhai rhannau o Gymru;

d) bod Llywodraeth Cymru wedi datblygu datganiad ansawdd newydd ond does dim cynllun gweithredu.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun gwella ar gyfer clefydau anadlol i drawsnewid bywydau pobl sy'n byw gyda chyflyrau'r ysgyfaint.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth ar ôl 1(b) a rhoi yn ei le:

bod Cymru'n arwain y ffordd yn y DU mewn llawer o agweddau ar wella gwasanaethau clefydau anadlol, gan gynnwys defnyddio addysg ddigidol yn helaeth i wella gofal clinigol, defnyddio apiau i gleifion i leihau'r angen am ofal brys a gofal mewn argyfwng, a helpu cleifion i newid i ddefnyddio anadlyddion ag ôl troed carbon is.

y bydd y GIG yn ymateb i'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Clefydau Anadlol drwy ei waith cynllunio gweithredol lleol ac y bydd yn cael ei gefnogi'n genedlaethol gan rwydwaith clinigol Gweithrediaeth y GIG ar gyfer clefydau anadlol.

Datganiad Ansawdd ar gyfer Clefydau Anadlol

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8265** Peter Fox (Mynwy)

Pam fod angen cynllun strategol ar Gymru i flaenoriaethu ymchwil i diwmorau ar yr ymennydd

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 23 Mai 2023